Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

HM Courts &
Tribunals Service

EX305

# Y Trac Cyflym a'r Amldrac mewn llysoedd sifil

Bydd y daflen hon yn berthnasol ichi am fod eich achos wedi cyrraedd y cam pan fydd rhaid i'r barnwr benderfynu sut ddylai'r achos gael ei reoli. Mae'r daflen hon yn esbonio rhai o'r llwybrau y mae achosion yn eu dilyn.

Cofiwch mai'r unig beth y gall y daflen hon, a thaflenni eraill, ei roi i chi yw darlun cyffredinol o'r hyn sy'n debygol o ddigwydd. Ni allant egluro popeth am y rheolau, costau a gweithdrefnau llys a all effeithio ar y gwahanol fathau o hawliadau mewn ffyrdd gwahanol.

Y barnwr sy'n penderfynu pa lwybr y mae'r achos i'w ddilyn, ac mae ei benderfyniad wedi'i seilio ar werth yr hawliad a pha mor gymhleth yw'r achos. Mae'n effeithio ar bopeth, o'r ffordd y dylid paratoi achos, i hyd y gwrandawiad, a hyd yn oed y math o farnwr a ddefnyddir.

Mae yna dri llwybr, ac maen nhw'n cael eu galw'n draciau (trac hawliadau bychain; trac cyflym ac amldrac).

**Trac Hawliadau Bychain –** fel arfer, ar gyfer hawliadau llai eu gwerth a llai cymhleth, gyda'u gwerth hyd at £10,000, er bod rhai eithriadau i'w cael. Cewch rhagor o wybodaeth am y llwybr hwn yn ein taflen EX306 **Y trac hawliadau bychain yn y llysoedd sifil**.

**Trac cyflym –** ar gyfer hawliadau gwerth rhwng £10,000 a £25,000.

**Amldrac –** ar gyfer hawliadau cymhleth iawn sydd werth £25,000 neu fwy.

## A oes rhaid i mi gael cymorth cyfreithiol?

Os yw swm yr hawliad yn awgrymu y gellid ei ddyrannu i'r trac cyflym neu'r amldrac, mae'n bosib yr hoffech chi chwilio am gymorth cyfreithiol gan gyfreithiwr, Canolfan Gyfreithiol neu asiantaeth gynghori. Nid oes yr un o weithdrefnau'r traciau hyn yn syml, a gall y naill a'r llall arwain at dreial ffurfiol.

Hyd yn oed os ydych yn teimlo eich bod yn gallu cyflwyno eich achos eich hunain mewn llys, efallai y byddwch yn ystyried cael cymorth proffesiynol gyda'r gwaith paratoi cyn y treial. Wrth gael cymorth proffesiynol, dylech chi ofyn a oes hawl gennych i gael cymorth cyfreithiwr am ddim, neu drwy dalu cyfraniad bychan. Efallai bydd rhai cyfreithwyr yn eich helpu ar y sail y byddant yn gofyn ichi dalu am eu gwasanaethau dim ond os ydych yn ennill eich achos. Os ydych chi'n colli eich achos, mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu costau'r parti arall.

## Ble alla' i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol?

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau'r llys ar gael ar wefan y llywodraeth -www.gov.uk

## Yr Holiadur Cyfarwyddiadau

### Llenwi'r holiadur cyfarwyddiadau

Pan mae hawliad yn cael ei amddiffyn, bydd staff y llys yn anfon 'rhybudd o ddyrannu i'r trac dros dro' yn seiliedig ar werth eich hawliad. Bydd y rhybudd yn nodi pa holiadur cyfarwyddiadau mae'n rhaid ichi ei lenwi. Bydd yr holiadur cyfarwyddiadau yn helpu barnwr i benderfynu p'un a yw'r trac a ddyrannwyd dros dro yn gywir ai peidio. Y barnwr fydd yn gwneud penderfyniad ar ba lwybr y dylai hawliad ei ddilyn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen yn ofalus iawn. Darllenwch y canllawiau ar y ffurflen cyn dechrau ei llenwi.

Dylai'r partïon gysylltu â'i gilydd i drafod y wybodaeth y byddant yn ei rhoi yn y ffurflen cyn dychwelyd y ffurflen i'r llys.

Gwnewch yn siŵr bod rhif yr hawliad, yn ddi-ffael, ar frig y ffurflen. Llenwch yr adran gwybodaeth bersonol yn llawn a chynnwys eich holl fanylion cyswllt, megis eich rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost. Bydd hyn yn galluogi swyddfa'r llys i gysylltu â chi ar frys os bydd angen.

### Anfon yr holiadur yn ôl i'r llys

Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen i'r llys erbyn y dyddiad penodol, neu gall y Barnwr bennu cosb. Hyd yn oed os na fydd un parti yn cydweithredu, ni ddylech chi adael i hyn eich rhwystro rhag llenwi'r holiadur a'i ddychwelyd i'r llys.

## Oes rhaid i mi drafod y ffurflen gyda'r parti arall?

Bydd y barnwr yn disgwyl ichi a'r parti arall neu cyfreithwyr y ddwy ochr, gydweithredu â'i gilydd wrth lenwi'r ffurflen. Dylai'r ddwy ochr sicrhau eu bod wedi cysylltu â'i gilydd i drafod llenwi'r holiadur cyfarwyddiadau.

Gallai'r llys ddisgwyl i chi fod wedi trafod y canlynol a, lle bo hynny'n bosib, cytuno yn eu cylch.

- a oes modd setlo'r achos, ac os ddim:
    - pa drac yw'r trac mwyaf priodol ar gyfer yr hawliad;
    - pa mor hir rydych chi'n credu bydd y treial yn para;
    - faint o amser rydych chi'n meddwl fydd ei angen arnoch i baratoi eich achos ar gyfer treial, a'r trefniadau ar gyfer cyfnewid tystiolaeth; ac
    - os ydych chi eisiau defnyddio rhywfaint o dystiolaeth arbenigol, nodi'r math o arbenigwr, ac a ydych chi'n gallu defnyddio'r un arbenigwr, gan y bydd y llys, fel arfer, yn disgwyl hyn.

## Allwn ni setlo'r achos ac osgoi gwrandawiad?

Os yw eich achos wedi'i ddyrannu i'r trac cyflym neu'r amldrac dros dro, mae'r holiadur cyfarwyddiadau yn gofyn ichi a ydych chi'n ceisio setlo eich anghydfod cyn y gwrandawiad llys, ac os ydych chi, a fyddech chi'n hoffi i'r barnwr ganiatáu i'r achos llys gael ei atal am gyfnod o fis tra byddwch yn ceisio ei setlo.

Os yw'r barnwr yn cytuno, bydd y llys yn anfon gorchymyn ichi a'r parti arall yn datgan bod yr hawliad wedi'i atal. Fel arfer, gelwir hyn yn atal yr hawliad er mwyn setlo. Bydd y gorchymyn hefyd yn esbonio beth ddylid ei wneud pan ddaw'r ataliad i ben, er enghraifft

- rhoi gwybod i'r llys bod yr achos wedi'i setlo;
- gofyn am ataliad pellach o fis; neu
- rhoi gwybod i'r llys na chyrhaeddwyd unrhyw setliad.

Os nad oes unrhyw setliad wedi'i gyrraedd yn ystod y cyfnod hwn, a'ch bod chi a'r ochr arall yn meddwl bod angen mwy o amser, gall y barnwr ganiatáu mis pellach. Os ydych chi'n gofyn am fwy o amser, rhaid i chi esbonio pam mae angen hynny a phwy sy'n eich helpu i setlo. Mae ffi yn daladwy i'r llys os byddwch yn gwneud cais am estyniad pellach. Fel arfer, bydd y barnwr ond yn rhoi ataliad pellach o un mis, a dim mwy, i'r partïon. Os nad yw'r partïon yn gallu setlo, bydd yr achos yn symud ymlaen at wrandawiad.

### Defnyddio cyfryngu i setlo'r achos

Mae cyfryngu yn ffordd o ddatrys anghydfodau er boddhad pawb heb orfod mynd i lys. Mewn sesiynau cyfryngu, sy'n wirfoddol, mae'r partïon yn cael eu helpu, gyda chymorth cyfryngwr diduedd, i daro cytundeb sy'n dderbyniol gan bawb dan sylw.

Y partïon, yn hytrach na'r cyfryngwr, sy'n penderfynu ynglŷn â setlo, ac os nad ydych chi'n gallu taro cytundeb yn ystod y sesiynau cyfryngu, mae achos llys yn opsiwn sy'n dal ar gael i chi.

Os byddwch yn dewis cael sesiwn cyfryngu, mae gennych yr hawl i ddefnyddio cyfryngwr o'ch dewis eich hun. Cewch rhagor o wybodaeth am gyfryngu a chyfeirlyfr o ddarparwyr sesiynau cyfryngu cymeradwy ar-lein yn www.civilmediation.justice.gov.uk. Mae cyfryngu yn broses gwirfoddol a dim ond yn digwydd os cytunai'r ddau barti.

Bydd cost y cyfryngu gan y darparwyr yn y cyfeirlyfr cyfryngu sifil ar-lein yn dibynnu ar werth yr anghydfod, fel a ganlyn.

| Swm a hawlir | Ffioedd i bob ochr | Hyd y sesiwn | Oriau ychwanegol i bob ochr |
|---|---|---|---|
| £5,000 i £15,000 | £300 + TAW | Tair awr | £100 + TAW yr awr |
| £15,000 i £50,000 | £425 + TAW | Pedair awr | £106 + TAW yr awr |

Os yw'r hawliad yn fwy na £50,000, bydd rhaid cytuno ynglŷn â'r ffioedd gyda'r corff sy'n darparu'r cyfryngu. Gall yr elusen LawWorks ddarparu sesiynau cyfryngu am ddim os na allwch fforddio talu. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein yn
www.lawworks.org.uk/lw_mediation

## Beth sy'n digwydd pan fydd y llys yn derbyn yr holiadur cyfarwyddiadau?

Pan fydd y llys yn derbyn yr holiaduron cyfarwyddiadau wedi'u llenwi gan y partïon, bydd y barnwr yn astudio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y ddau barti. Yna bydd y barnwr yn penderfynu sut dylai'r achos symud ymlaen drwy ystyried pa lwybr y dylai ei ddilyn. Bydd y barnwr yn ystyried yr hyn yr ydych wedi'i ddweud yn yr holiadur dyrannu a bydd yn edrych yn benodol ar y swm sydd dan anghydfod a'r amserlen a'r dystiolaeth sydd eu hangen. Bydd yr holl bethau hyn yn caniatáu i'r barnwr benderfynu a ddylai'r achos fod ar y trac cyflym neu ar yr amldrac. Gelwir hyn yn 'ddyrannu i drac'.

## Beth os bydd y barnwr angen rhagor o wybodaeth?

Weithiau, cyn i'r Barnwr benderfynu ar ddyrannu i drac, gallant ofyn am ragor o wybodaeth. Gall y ddwy ochr dderbyn gorchymyn llys a fydd yn gofyn am gael mwy o wybodaeth wedi'i hanfon i'r llys ar bapur, neu gais i'r partïon fynychu gwrandawiad i gyfleu'r wybodaeth honno i'r barnwr wyneb yn wyneb. Gelwir hyn yn wrandawiad dyrannu. Gyda llawer o achosion bydd y barnwr yn gallu penderfynu ar y llwybr bydd yr achos yn ei ddilyn yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr holiadur cyfarwyddiadau yn unig.

Os oes angen mwy o wybodaeth ar y barnwr ar bapur, anfonir ffurflen arbennig yn dwyn y teitl **Gorchymyn am fwy o Wybodaeth (dyrannu)** yn esbonio pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y barnwr. Bydd y ffurflen hefyd yn dweud wrthych erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i chi anfon yr wybodaeth i'r llys.

Os yw'r barnwr yn penderfynu cynnal gwrandawiad dyrannu, anfonir hysbysiad gwrandawiad at y ddau barti, a bydd hwnnw'n nodi amser, dyddiad a lleoliad y gwrandawiad.

## Sut bydda' i'n gwybod i ba drac y mae'r hawliad wedi'i dyrannu?

Pan fydd y barnwr wedi penderfynu, bydd y llys yn anfon hysbysiad dyrannu at y ddau barti. Bydd yr hysbysiadau hyn yn nodi i ba drac y dyrannwyd yr hawliad, a'r hyn y mae'r llys yn ei ddisgwyl i chi ei wneud nesaf. Mae'r camau y mae'r llys yn disgwyl i'r naill a'r llall ohonoch eu cymryd yn cael eu galw'n gyfarwyddiadau.

Yn ogystal, rhaid i chi dalu ffi'r gwrandawiad i'r llys neu ffeilio cais i gael Help i Dalu Ffioedd erbyn y dyddiad sydd ar y gorchymyn.

Bydd methu â thalu'r ffi neu wneud cais priodol am Help i Dalu Ffioedd yn golygu caiff yr hawliad/gwrth-hawliad ei **ddileu ar unwaith heb orchymyn arall a bydd y gwrandawiad yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr.**

Os ydy eich hawliad wedi'i ddileu, ni fydd yn bodoli mwyach. Rhaid i chi naill ai ffeilio hawliad newydd ynghyd â'r ffi briodol neu wneud cais i gael Help i Dalu Ffioedd .

Bydd y gwrandawiad yn cael ei ddad-restru, oni bai bod gwrth-hawliad yn parhau i fodoli er bod yr hawliad wedi'i ddileu.

**Ni ellir ad-dalu** ffi y gwrandawiad. Os yw'r partïon yn setlo cyn mae'n amser i dalu'r ffi, ni fydd y ffi gwrandawiad yn daladwy.

## Proses y trac cyflym a gwrandawiad

### Beth yw'r trac cyflym?

Fel arfer, bydd y trac cyflym yn cael ei ddewis ar gyfer yr achosion hynny sydd â gwerth ariannol o rhwng £10,000 a £25,000 lle mae materion mwy cymhleth i benderfynu yn eu cylch. Yn amlach na pheidio, ni fydd treialon trac cyflym yn para mwy nag un diwrnod.

### Beth yw cyfarwyddiadau arferol y trac cyflym?

Yn naturiol, y barnwr sydd i benderfynu pa gyfarwyddiadau sy'n berthnasol ar gyfer pob hawliad, a gall y rhain amrywio o achos i achos.  Fodd bynnag, gallai cyfarwyddiadau safonol ac amserlen nodweddiadol ar gyfer achos trac cyflym fod fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Datgeliad (gydag archwiliad yn dilyn) | pedair wythnos ar ôl dyrannu |
| Datganiadau tystion eraill | 10 wythnos ar ôl dyrannu |
| Cyfnewid adroddiadau arbenigwyr (lle caniateir arbenigwyr | 14 wythnos ar ôl dyrannu |
| Y llys yn anfon rhestri gwirio cyn-treial | 20 wythnos ar ôl dyrannu |
| Dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd rhestri | 22 wythnos ar ôl dyrannu |
| Gwirio cyn-treial | oddeutu 30 wythnos ar ôl dyrannu |

Rhoddir y dyddiadau ar gyfer gweithredu'r amserlen a bennwyd gan y llys ar ffurf amser a dyddiadau calendr, e.e. erbyn 4pm ar 1 Mehefin. Gall y partïon gytuno, trwy lythyr, i ymestyn yr amser i'w ganiatáu ar gyfer cyfnewid y dogfennau gofynnol, ond dylent hysbysu'r llys o'r amserlen y maent wedi cytuno yn ei chylch. **Ni chaiff** unrhyw estyniad effeithio ar ddyddiad dychwelyd y rhestri gwirio cyn-treial, na dyddiad y treial ei hun.

## Beth yw datgeliad?

Mae datgeliad yn golygu sôn wrth y parti arall am unrhyw ddogfennau perthnasol i'r achos sydd gennych chi yn eich meddiant, neu a fu yn eich meddiant, neu rai y mae'r llys yn mynnu eich bod yn eu datgelu.

Y dogfennau y dylech eu datgelu yw'r rhai hynny sy'n:

- cefnogi eich achos;
- tanseilio neu wrthwynebu eich achos; a'r
- rhai hynny sy'n cefnogi achos y parti arall.

Bydd y llys yn disgwyl i chi wneud ymdrech resymol i ddod o hyd i'r dogfennau hyn. Mae'r hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar, er enghraifft:

- nifer y dogfennau dan sylw, a natur a chymhlethdod eich achos;
- y drafferth neu'r gost sydd ynghlwm wrth ganfod y dogfennau; a
- pherthnasedd y dogfennau i'r achos cyffredinol.

## Sut ydw i'n datgelu'r dogfennau?

Gall swyddfa'r llys roi ffurflen i chi o'r enw **Rhestr dogfennau: datgeliad safonol**. Mae hefyd ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk, mae'n cynnwys nodiadau canllaw ac mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen yn gywir drwy ddweud pa ddogfennau sydd gennych, fel a ganlyn.

- Dogfennau sydd yn eich meddiant, a chithau'n fodlon i'r diffynnydd eu harchwilio.
- Dogfennau sydd yn eich meddiant, ond nad ydych yn fodlon i'r diffynnydd eu harchwilio.
- Dogfennau nad ydynt yn eich meddiant mwyach.

Os ydych chi'n gwrthwynebu i'r parti arall archwilio unrhyw ddogfen, bydd rhaid i chi esbonio pam. Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen datgelu, dylech anfon copi at yr ochr arall erbyn y dyddiad a roddwyd gan y barnwr yn y cyfarwyddiadau. Rhaid i'r parti arall hefyd baratoi rhestr a'i hanfon hi atoch chi o fewn yr un amserlen.

## Beth yw archwiliad?

Archwiliad yw pan fydd cais yn dod i law i edrych ar ddogfennau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr ddatgelu. Mae hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am achos y parti arall. Rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig er mwyn cael archwilio unrhyw ddogfennau ar y rhestr. Rhaid i chi gael caniatâd i archwilio'r dogfennau saith diwrnod, ar yr hwyraf, ar ôl i'ch cais gael ei dderbyn. Mae hawl gennych i ofyn am gopïau o'r ddogfen, ond chi fydd yn gorfod talu'r costau sydd ynghlwm â hyn.

Os nad ydych wedi datgelu dogfen, neu ganiatáu iddi gael ei harchwilio, mae'n bosib na chewch ei defnyddio i gefnogi eich achos, heblaw bod y llys yn penderfynu fel arall.

## Rhagor o wybodaeth ac arweiniad

Os nad ydych chi'n deall y pethau y mae'r llys wedi'u hanfon atoch, mae'n bosib y gall y llys esbonio'r weithdrefn **ond** nid yw staff y llys yn gallu dweud unrhyw beth am faterion cyfreithiol penodol yr achos. Cewch rhagor o wybodaeth am brosesau'r llys ar wefan y llywodraeth www.gov.uk.

Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, mae'n bosib yr hoffech chi gysylltu â chanolfan cynghori neu gyfreithiol leol, neu gyfreithiwr lleol. Cewch wybodaeth am gyngor cyfreithiol yn eich ardal ar-lein yn www.gov.uk/legal-aid

### Y rhestr wirio cyn-treial

Mae cyfarwyddiadau'r trac cyflym a'r amldrac yn gofyn i chi lenwi rhestr wirio cyn-treial. Bydd swyddfa'r llys yn anfon y ffurflen at y ddau barti ar yr adeg briodol. Bydd y llys hefyd yn dweud wrthych chi erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i chi ddychwelyd y rhestr wirio cyn-treial.

Bydd y ddogfen hon yn helpu'r llys i benderfynu a oes angen unrhyw gyfarwyddiadau pellach cyn y treial, a bydd yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi cyflawni'r holl bethau y mae'r llys eisoes wedi'u gorchymyn. Fel ag sy'n wir gyda'r holiadur dyrannu, dylai'r ddau barti gydweithredu â'i gilydd wrth lenwi'r ffurflen. Os bydd un parti yn gwrthod cydweithredu, rhaid i chi beidio â gadael i hynny eich rhwystro rhag llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd i'r llys.

Mae'n rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen, erbyn y dyddiad a orchmynnwyd gan y llys, fan bellaf. Os na fyddwch yn ei ddychwelyd, gellir gosod cosb, megis gwrthod neu 'ddileu' eich datganiad achos. Datganiad achos yw'r ffurflen hawlio neu'r amddiffyniad a/neu wrth-hawliad. Mae gwrth-hawliad yn hawliad y gallai'r diffynnydd ei wneud yn erbyn yr hawlydd yn yr achos.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i'r rhestri gwirio cyn-treial gael eu hanfon yn ôl i'r llys?

Pan fydd yr holl restri gwirio wedi'u derbyn yn ôl, bydd y llys yn eu hanfon at y barnwr. Gall y barnwr:

- gadarnhau bod yr holl gyfarwyddiadau blaenorol a roddwyd wedi cael eu dilyn;
- penderfynu a oes angen unrhyw gyfarwyddiadau pellach ai peidio cyn y treial;
- penderfynu, os ydych chi eisoes wedi cael defnyddio tystiolaeth arbenigol, rhoi caniatâd neu beidio i'ch arbenigwr roi tystiolaeth lafar yn y treial;
- cadarnhau faint o amser sydd ei angen ar gyfer y treial;
- gosod amserlen ar gyfer y treial ei hun; a
- rhoi cyfarwyddiadau am ffeilio unrhyw fwndel treial gyda'r llys.

(Bwndel yw pecyn gwybodaeth a dystiolaeth a ddarperir ar gyfer y llys). Gall y cyfarwyddiadau ymwneud â'r dogfennau sydd yn y bwndel, yn nhrefn a'r modd y dylent gael eu cyflwyno, a sut y dylent gael eu rhifo ac ym mha drefn.

### Dyddiad y treial

Os yw eich achos yn cael ei ddyrannu i'r trac cyflym, anfonir hysbysiad o ddyddiad y treial atoch chi dim hwyrach na 36 ddiwrnod cyn y disgwylir i'r treial ddechrau.

Dylech ddarllen yr hysbysiad o ddyddiad y treial yn ofalus, gan y gallai'r treial gael ei gynnal mewn llys gwahanol. Mae'n bosib y byddai'n rhaid symud i lys arall er mwyn sicrhau bod eich achos yn cael ei gynnal o fewn yr amserlen a bennwyd gan y barnwr.

Pan fyddwch yn derbyn eich hysbysiad o ddyddiad y treial, gallwch chi ac unrhyw rai o'ch tystion gael rhagor o wybodaeth am fod yn dyst mewn taflen o'r enw *EX341 - Gofynnwyd i mi fod yn dyst - beth ddylwn ei wneud?* Gallwch lawrlwytho hon oddi ar www.hmctsformfinder.justice.gov.uk. Fel arall, mae mwy o wybodaeth am brosesau'r llys i'w chael ar www.gov.uk

**Cofiwch fod rhaid i chi dalu ffi'r gwrandawiad i'r llys erbyn y dyddiad sydd ar y gorchymyn.**

### Treial trac cyflym

Mae'n bosibl y cynhelir y gwrandawiad naill ai yn ystafell y llys neu yn ystafell y barnwr. Ar y trac cyflym, gall barnwr cylchdaith neu farnwr rhanbarth wrando'r achos. Dylai rhestr y llys, a fydd wrth ymyl yr ystafell aros yn y llys, ddweud wrthych a yw eich achos yn cael ei wrando gan farnwr cylchdaith neu ranbarth, ynghyd â'i enw neu ei henw.

## Beth ddylwn i wneud pan fyddaf yn cyrraedd y llys?

Cyrhaeddwch mewn da bryd ar gyfer eich gwrandawiad. Bydd adeilad y llys yn agor ychydig cyn gwrandawiad cyntaf y dydd, a gynhelir fel arfer am 10am. Ni fydd eich gwrandawiad yn dechrau cyn yr amser a roddwyd i chi. Er y gwneir pob ymdrech i gadw at yr amser hwnnw, nid yw hynny bob amser yn bosib, ac efallai y bydd rhaid i chi ddisgwyl.

Ar ôl cyrraedd, ewch at y derbynnydd neu dywysydd y llys i ddweud eich bod chi yno. Nodir eich bod wedi cyrraedd, a fe ddangosir i chi ble i aros. Fel arfer, bydd tywysydd y llys yn dweud wrthych pryd fydd eich gwrandawiad yn dechrau. Gwrandewch yn ofalus am eich enw'n cael ei alw.

Os oes angen i chi adael yr ystafell aros, dywedwch wrth y tywysydd ble i ddod o hyd i chi.

## Beth ydw i'n galw'r barnwr?

Gelwir Barnwr Cylchdaith yn 'Eich Anrhydedd'.

Gelwir Barnwr Rhanbarth yn 'Syr' neu 'Madam'.

## Beth fydd yn digwydd yn y gwrandawiad?

Fel arfer, bydd y barnwr eisiau clywed gan yr hawlydd gyntaf, ac yna gan y diffynnydd.

Fel arfer, gofynnir i chi ac unrhyw dystion dyngu llw neu gadarnhau eich bod yn dweud y gwir pan fyddwch yn rhoi eich tystiolaeth. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn â beth i'w wneud yn hyn o beth, yna gofynnwch i'r tywysydd. Mae hi bob tro yn gymorth os ydych chi'n dweud wrth y tywysydd a ydych chi am gadarnhau (sydd heb gyswllt i unrhyw grefydd) neu dyngu llw, ac ar ba lyfr sanctaidd, cyn y gwrandawiad.

Wrth roi tystiolaeth, cewch chi ond cyfeirio at nodiadau rydych chi wedi'u gwneud os yw'r barnwr wedi caniatáu i chi wneud hynny. Bydd pob unigolyn, neu eu cyfreithiwr, yn cael cyfle i siarad a gofyn cwestiynau i'r unigolyn arall, ac unrhyw dystion. Gelwir hyn yn 'Croesholi'. Mae'n bosib y bydd y barnwr hefyd yn gofyn rhai cwestiynau.

Weithiau, bydd bargyfreithiwr, yn hytrach na chyfreithiwr, yn gofyn cwestiynau. Mewn llys, mae bargyfreithiwr yn gwisgo gŵn llys dros eu dillad arferol.

Os ydych chi'n gofyn cwestiynau, cofiwch ofyn dim ond un cwestiwn ar y tro. Peidiwch byth â thorri ar draws barnwr neu dyst.

## Pryd fydd y barnwr yn gwneud penderfyniad?

Fel arfer, bydd y barnwr yn rhoi ei benderfyniad i chi ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei rhoi. Anfonir gorchymyn llys, a fydd yn nodi'r penderfyniad mewn ysgrifen, atoch chi ar ôl y gwrandawiad. Ni fydd y gorchymyn, fel arfer, yn nodi'r rhesymau dros y dyfarniad. Mae'n bosib y bydd y barnwr yn dweud wrthych am wneud rhywbeth, megis talu arian i'r parti arall, ond nid oes rhaid i chi aros am gopi o'r gorchymyn cyn dilyn cyfarwyddiadau'r barnwr.

Os oes angen mwy o amser ar y barnwr i ddod i benderfyniad, mae'n bosib y dywedir wrthych yn y treial, neu drwy hysbysiad gan y llys, yr amser, y dyddiad a'r adeg y rhoddir y penderfyniad. Gelwir hyn yn 'orfodi eich dyfarniad'.

## Alla' i wrthwynebu gorchymyn y barnwr?

Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniad y barnwr, mae'n bosib y gallech apelio yn ei erbyn. Golyga hyn y bydd barnwr uwch yn ystyried eich achos a phenderfynu a oedd y penderfyniad gwreiddiol yn gywir.

Os ydych chi am apelio rhaid i chi weithredu ar fyrder. **Peidiwch â chymryd y cam hwn heb gael cyngor gan gyfreithiwr neu asiantaeth cynghori.** Os ydych chi'n colli eich apêl, mae'n debygol y bydd rhaid i chi dalu costau'r parti arall.

Cewch ragor o wybodaeth ar y broses ar-lein ar y daflen *EX340 - Rwyf eisiau gwneud apel - beth ddylwn i wneud?* Gweler hmctsformfinder.justice.gov.uk

## Proses yr Amldrac a gwrandawiad

Mae'r amldrac, fel arfer, yn delio ag achosion cymhleth iawn, sydd werth £25,000 neu fwy, ond mae hefyd yn golygu bod y llys yn gallu delio ag achosion yn y ffordd fwyaf priodol yn ôl anghenion yr achos hwnnw. Golyga hyn, yn wahanol i'r traciau eraill, nad oes unrhyw un weithdrefn safonol ar gyfer achosion amldrac.

Er mwyn i'r achos fynd yn ei flaen, mae'n rhaid i'r partion geisio cytuno ar gyfarwyddiadau a ffeilio'r cyfarwyddiadau arfaethedig (os y cytunwyd arnynt neu beidio) gyda holiadur cyfarwyddiadau. Dylai unrhyw gyfarwyddiadau fod yn seiliedig ar y paragraffau safonol sydd ar gael yn: www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/standard-directions/general/list-of-cases-of-common-occurance

## Beth yw cynhadledd rheoli achos?

Mae cynhadledd rheoli achos yn gyfarfod anffurfiol rhwng yr holl bartïon a'r barnwr, er mwyn adolygu cynnydd achos. Os yw'r barnwr yn penderfynu cynnal cynhadledd rheoli achos, dywedir wrthych pryd a ble i fod yn bresennol. Gall cynhadledd rheoli achos ddelio â rhai o'r materion canlynol.

- Adolygu'r camau y mae'r ddwy ochr wedi'u cymryd wrth baratoi'r achos.
- Gwneud yn siŵr bod y partïon wedi dilyn, neu yn dilyn, unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y barnwr.
- Rhoi unrhyw gyfarwyddiadau eraill er mwyn sicrhau eich bod yn deall achos eich gilydd.
- Nodi unrhyw gytundeb rhwng y partïon ynglŷn ag unrhyw elfen o'r achos.
- Gosod amserlen ar gyfer unrhyw gamau eraill sy'n angenrheidiol, ym marn y barnwr; a,
- Monitro costau.

## Beth yw adolygiad cyn-treial?

Gellir cynnal adolygiad cyn-treial ar ôl i'r barnwr astudio'r rhestri gwirio cyn-treial. Pwrpas yr adolygiad cyn-treial yw penderfynu:

- amserlen ar gyfer y treial ei hun;
- pwy fydd yn rhoi tystiolaeth yn y treial ac ym mha drefn;
- cynnwys bwndel y treial (yr holl bapurau sydd eu hangen yn y treial) a'r dyddiad y mae'n rhaid iddo gael ei anfon i'r llys; ac
- amcangyfrif o hyd y treial.

### Dyddiad y treial

Os yw eich achos yn cael ei ddyrannu i'r amldrac, anfonir hysbysiad o ddyddiad y treial atoch yn fuan ar ôl unrhyw adolygiad cyn-treial.

Dylech ddarllen yr hysbysiad o ddyddiad y treial yn ofalus, gan y gallai'r treial gael ei gynnal mewn llys gwahanol. Mae'n bosib y byddai'n rhaid symud i lys arall er mwyn sicrhau bod eich achos yn cael ei gynnal o fewn yr amserlen a bennwyd gan y barnwr.

Pan fyddwch yn derbyn eich hysbysiad o ddyddiad y treial, gallwch chi ac unrhyw rai o'ch tystion gael rhagor o wybodaeth am fod yn dyst mewn taflen o'r enw *EX341 - Gofynnwyd i mi fod yn dyst beth ddylwn ei wneud?* Gallwch lwytho hon oddi ar www.hmctsformfinder.justice.gov.uk. Fel arall, mae mwy o wybodaeth am brosesau'r llys i'w chael ar www.gov.uk.

**Cofiwch fod rhaid i chi dalu ffi'r gwrandawiad i'r llys erbyn y dyddiad sydd ar y gorchymyn.**

## Beth fydd yn digwydd yn y treial?

Ar yr amldrac, bydd y treial, fel arfer, yn cael ei gynnal mewn ystafell llys gerbron Barnwr Cylchdaith. Fe'i cyferchir fel 'Eich Anrhydedd'. Mae gwrandawiadau ar gyfer proses amldrac yn debyg i wrandawiadau trac cyflym – gweler yr wybodaeth yn yr adran hon uchod.

## Beth ydw i'n ei wneud os na allaf dalu ffioedd y llys?

Mae rhestr o ffioedd y llys i'w gweld yn y daflen *EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu* sydd ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Gallwch wneud cais am help gyda ffioedd llys a thribiwnlys ar-lein yn www.gov.uk/help-with-court-fees neu drwy'r ffurflen 'EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd' a'r cyfarwyddyd 'EX160A – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd'.

Bydd rhaid i chi wneud cais ar wahân bob tro mae'n rhaid i chi dalu ffi.

## Pa gymorth ychwanegol sydd ar gael os gennyf anabledd?

Os oes arnoch angen y daflen hon mewn fformat arall, er enghraifft mewn print bras, dylech gysylltu â'ch llys lleol. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer yr holl lysoedd ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk.

Os oes gennych anabledd sy'n peri ei bod yn anodd mynd i lys neu dribiwnlys neu gyfathrebu, cysylltwch â'r llys perthnasol a bydd yn gallu'ch helpu. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer yr holl lysoedd ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk


© Hawlfraint y Goron 2017